




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cymoedd
Ein Dyfodol



Our Valleys
Our Future

Adroddiad Cynydd 2018: Blwyddyn yn ddiweddarach



@TalkValleys

#OurValleys

Cynnwys

Cyflwyniad

3

Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni

4

Gwell gwasanaethau cyhoeddus

11

Fy nghymuned leol

18



Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* – cynllun lefel uchel ac uchelgeisiol sy'n disgrifio ystod eang o ffyrdd i drawsnewid cymunedau ledled y Cymoedd.

Roedd y cynllun wedi ei seilio ar adborth gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymoedd y De – treuliodd aelodau'r tasglu fisoedd yn gwrandao ar bobl yn y Cymoedd ac yn siarad gyda nhw ynglŷn â'r hyn maen nhw ei eisiau ar gyfer eu cymunedau lleol, nawr ac yn y dyfodol. Derbyniodd y tasglu hefyd ystod eang o dystiolaeth cyn creu'r cynllun:

Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni

Gwell gwasanaethau cyhoeddus

Fy nghymuned leol

Ar ôl cyhoeddi *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*, mae'r tasglu wedi datblygu a chyhoeddi cynllun cyflawni manwl, sy'n dangos sut bydd y blaenoriaethau a'r pwyntiau gweithredu yn cael eu cyflawni erbyn 2021. Mae'n manylu ar bwy fydd yn rhan o'r gwaith, y canlyniadau disgwylidig a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, bydd y cynllun cyflawni'n cael ei ddiweddarau. Er mwyn sicrhau ein bod ni'n agored ac yn dryloyw, bydd hefyd yn dangos pan nad yw gwaith yn mynd yn ei flaen cystal â'r disgwyl ac yn egluro sut rydym ni'n bwriadu mynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen.

Bydd y cynllun cyflawni wedi ei ddiweddarau hefyd yn gyfle i ystyried camau gweithredu a rhaglenni newydd, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar Gymoedd y De.

Mae pob cam gweithredu yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yn cael ei adolygu ac fe fyddwn yn cyhoeddi cynllun cyflawni wedi ei ddiweddarau a'i adfywio ym mis Tachwedd 2018.

Dyma'r adroddiad cynnydd cyntaf ers i'r cynllun cyflawni gael ei gyhoeddi wyth mis yn ôl. Rydym yn parhau i gasglu data i ddangos sut mae'r camau gweithredu yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau'r Cymoedd ond mae peth tystiolaeth eisoes yn dangos newid cadarnhaol.

Mae hyn yn cynnwys y cyhoeddiad am fasnachfaint newydd Cymru a'r Gororau a fydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer datblygu Metro'r De ynghyd â gwelliannau i linellau Cymoedd y De a'r gwaith i ddatblygu'r saith hyb strategol ar hyd a lled y Cymoedd, gwaith sy'n cael ei arwain gan y tasglu.

Mae'r holl waith ar y camau gweithredu a gafodd eu hamlygu yn adroddiad cyflawni *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yn cael ei wneud mewn cyfnod ansicr ynglŷn â'r fargen derfynol wrth i'r DU barhau i geisio trafod y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd.


Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni

Thema 1: Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau perthnasol

Dywedsoch
chi:

Rydych chi'n hoffi byw yn y Cymoedd ond bod angen mwy o swyddi a chyfleoedd da i gael y sgiliau...

... felly erbyn 2021 byddwn:



wedi gwneud yn siŵr bod gan bobl y
sgiliau
iawn i gael swydd dda



wedi helpu
7,000
o bobl i gael swydd



wedi cefnogi busnesau i ffynnu fel bod modd cael
swyddi diogel sy'n
talud dda

I gyflawni hynny byddwn:

- yn creu hybiau strategol newydd

- yn creu swyddi yn yr economi sylfaenol

- yn cynyddu'r cymorth sgiliau

- yn cefnogi busnesau sydd eisoes yn bodoli yn y Cymoedd

Erbyn 2021, mae'r tasglu'n benderfynol o gau'r bwloch cyflogaeth rhwng Cymoedd y De a gweddill Cymru. Gosodwyd y targed yn 2017 gan ddefnyddio data lefelau cyflogaeth ar ddiwedd 2016. O ganlyniad i'r wybodaeth hon, er mwyn cau'r bwloch, roedd angen i 7,000 o bobl sy'n byw yn y Cymoedd gael eu cyflogi.

Er mwyn cyflawni hyn, mae angen creu swyddi newydd o ansawdd da ledled y Cymoedd. Mae angen hefyd sicrhau bod y cymorth a'r mynediad cywir at sgiliau a hyfforddiant ar gael i bobl allu cael y swyddi hynny. Mae hefyd

angen i ni helpu rhieni – yn enwedig rhieni sengl – gyda chostau gofal plant, gan fod hyn mor aml yn gallu bod yn rhwystr i fynd i'r gwaith.

Mae angen i fusnesau ac entrepreneuriaid wybod bod cymorth ar gael i'w helpu i dyfu a ffynnu yng Nghymoedd y De.

Roedd *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yn cynnwys cynlluniau i greu saith hyb strategol ar hyd a lled y Cymoedd. Cafwyd cynnydd da yn natblygiad pob un o'r hybiau.

Ers mis Medi 2016, mae mwy na 1,000 o bobl economaidd anweithgar sy'n byw yn ardaloedd tasglu'r Cymoedd wedi dechrau gweithio trwy ragenni cyflogaeth sy'n cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru.

Bron 1,000 o bobl a busnesau bach wedi cael cymorth trwy dderbyn cyngor a chefnogaeth busnes ac mae mwy na 100 o fentrau newydd wedi cael eu creu yn ardal tasglu'r Cymoedd yn ystod 2017-18.

Cafwyd mwy na 5,000 o bobl yn dechrau ar raglenni prentisiaeth yn y Cymoedd yn y flwyddyn academiaidd 2016-17.

Y Comisiwn Gwaith Teg

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd da wrth geisio pennu sut gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwaith teg wrth wraidd ein heconomi. Rydym wedi gosod egwyddorion sylfaenol, sy'n cynnwys yr hawl i gael eich clywed, cyflog teg a sicr fesul awr, sicrwydd swydd a datblygiad gyrfa, ansawdd swydd ac ansawdd amser gwaith.

Mae'r Comisiwn Gwaith Teg nawr yn cael ei sefydlu a bydd yn edrych yn fwy manwl ar y dulliau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i roi gwaith teg ar waith. Bydd y Comisiwn yn rhoi argymhellion ar y camau nesaf. Bydd cymorth busnes a chaffael yn chwarae rôl bwysig wrth fwrw ymlaen gyda'r uchelgais i wneud Cymru'n Genedl Gwaith Teg.

Buddsoddi i greu swyddi

Hybiau strategol – y stori hyd yn hyn

Fis Gorffennaf y llynedd, fe wnaethon ni ymrwmo i edrych ar bob opsiwn er mwyn targedu buddsoddiad a chreu hybiau strategol newydd mewn ardaloedd penodol ledled y Cymoedd. Ardaloedd yw'r rhain ble caiff arian cyhoeddus ei sianelu er mwyn creu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi a chreu swyddi newydd. Mae cylch gwaith a gwaith y tasglu'n canolbwyntio

ar yr ardaloedd hynny yng Nghymoedd y De sydd â'r heriau – a'r cyfleoedd – mwyaf, a ble mae effeithiau amddifadedd yn cael yr effaith fwyaf andwyol ar fywydau pobl a'u cymunedau.

Gan weithio gyda swyddogion o adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, roedd modd i ni weld pa ardaloedd yng Nghymoedd y De oedd â'r potensial economaidd gorau. Mapiwyd y rhain ochr yn ochr â chymunedau o fewn amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus o 45 munud er mwyn sicrhau y byddai'r hybiau strategol arfaethedig o fudd i gymunedau ar draws y Cymoedd ac nid y rhai agosaf i'r hybiau yn unig.

Cafodd chwe ardal eu dynodi i ddechrau fel lleoliad ar gyfer hyb strategol – Caerffili/Ystrad Mynach, Castell-nedd, Glynebwy, Pontypridd/Trefforest, Merthyr Tudful a Chwmbrân. Yn dilyn cyhoeddiad cynllun gweithredu *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* a chysylltiad pellach gyda chymunedau lleol, ychwanegwyd seithfed hyb yng ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr.

Ardal Tasglu'r Cymoedd



Awdurdodau lleol sydd wedi bod yn arwain ar ddatblygu gwedd eu hybiau strategol, gan sicrhau eu bod yn ategu cyfleoedd lleol a'u dyheadau ar gyfer yr ardal at y dyfodol.

Yn dilyn cyfres o ddiwyddiadau ymgysylltu yn yr hydref, bu awdurdodau lleol yn arwain ar ddatblygu cynigion prosiectau strategol ar gyfer pob un o saith ardal yr hybiau, gan weithio ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru a chymunedau a busnesau lleol. Cynhaliwyd seminarau rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Ionawr 2018 a gwahoddiwyd busnesau lleol a rhanddeiliaid i drafod, herio ac ystyried y prosiectau a gynigiwyd er mwyn cadarnhau pa rai roedden nhw'n teimlo a fyddai'n gwneud y cyfraniad gorau i les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd.

Y camau nesaf

Mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o wahanol becynnau ariannu a modelau cyflawni, yn cynnwys arian Ewropeaidd; buddsoddiad uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru; arian cyfatebol gan awdurdodau lleol a phartneriaid allanol a chyd-fentrau newydd. Wrth i brosiectau unigol o fewn y rhaglen gael eu cyflawni, byddant yn creu swyddi newydd a gofod cyflogaeth; yn cyfrannu at ddatblygu'r rhwydwaith trafniadaeth integredig; yn darparu tai ychwanegol ac unedau deallus, carbon isel sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Bydd yr adeiladau hynny sy'n bwysig i'n treftadaeth ni'n cael eu hadfywio, gan gynnig manteision diwylliannol a chymunedol ehangach.

Cymoedd Technoleg

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n buddsoddi £100m yn rhaglen y Cymoedd Technoleg dros ddeng mlynedd er mwyn cefnogi creu mwy na 1,500 o swyddi, yn bennaf o fewn technolegau newydd a gweithgynhyrchu uwch.

Enw gwreiddiol y rhaglen oedd Parc Modurol Glynebwy ond yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, penderfynwyd ehangu potensial y parc ac ymestyn yn bellach na'r sector moduro yn unig. Ehangwyd ei ddalgylch daearyddol hefyd i gynnwys Blaenau Gwent, yn hytrach na Glynebwy'n unig. I adlewyrchu'r newidiadau hyn, cyhoeddwyd dogfen weledigaeth ar gyfer y Cymoedd Technoleg ym mis Rhagfyr 2017.

Ym mis Mai 2018, cafwyd cadarnhad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth y byddai Llywodraeth Cymru'n buddsoddi £25m yn ei rhaglen Cymoedd Technoleg rhwng 2018 a 2021, fel rhan o'r ymrwymiad i fuddsoddi £100m dros y deng mlynedd nesaf. Mae hyn yn ychwanegol i'r ystod o fuddsoddiadau a wnaed hyd yma gan y Cymoedd Technoleg. Cafodd Cynllun Strategol y Cymoedd Technoleg ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r cyhoeddiad hwn, er mwyn darparu arweiniad strategol ar gyfer buddsoddiadau ac unrhyw weithgarwch yn ymwneud â rhaglenni.

Er bod y Cymoedd Technoleg yn cael ei ystyried fel buddsoddiad £100m, mae nifer o brosiectau unigol gwaelodol yn rhan ohono ac mae disgwyl i'r rhain amrywio'n fawr o ran cymhlethdod, graddfa a maint y buddsoddiad sydd ei angen. Bydd hefyd yn cynnig cymorth ar gyfer cynigion i fuddsoddi. Bydd y prosiectau hyn yn parhau i ymddangos dros amser ac yn ysgogi creu swyddi gan sbarduno eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i fuddsoddi yn yr ardal. Bydd hefyd yn cyflymu datblygiad uwch dechnoleg gwerth uchel sy'n cefnogi diwydiant sydd ar flaen y gad.

Yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, bydd twf, gwaith teg a datgarboneiddio'n egwyddorion canolog i waith y Cymoedd Technoleg wrth iddyn nhw geisio gwasgaru ffrwyth twf economaidd i ardaloedd nad ydynt wedi gwneud cystal yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae dolenni i'r weledigaeth a'r cynllun strategol isod.

www.gov.wales/topics/businessandconomy/growing-the-economy/enterprisezones/ebbw-vale/?lang=en

www.gov.wales/topics/businessandconomy/growing-the-economy/enterprisezones/ebbw-vale/?lang=cy

Hybiau ychwanegol

Fel rhan o gytundeb Cyllideb 2018-19 gyda Plaid Cymru, rydym wedi bod yn ymchwilio i'r ddadl dros hybiau strategol ychwanegol. Mae adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru wedi edrych ar effaith nifer o hybiau arfaethedig, gan ystyried nifer y bobl a fyddai'n elwa o'r hyb newydd, a hefyd amser teithio i'r gwaith wrth ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus.

Rhaglenni cyflogaeth a hyfforddi a phrentisiaethau

Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi

Cafodd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ei lansio ym mis Rhagfyr 2017 ac mae'n Gynllun a fydd yn tyfu ein heconomi ac yn ymledu cyfle i fodloni heriau'r presennol a chyfleoedd y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig arweiniad a swyddogaeth alluogi – gan weithio gydag eraill i greu economi sydd wedi ei seilio ar seiliau cadarn, diwydiannau pwerus y dyfodol ac ardaloedd a phobl gynhyrchiol. Cafwyd llawer o gyfleoedd i ymgysylltu gyda busnesau a rhanddeiliaid eraill yn ardaloedd tasglu'r Cymoedd. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar brofi ein ffordd o feddwl am sut bydd y Cytundeb ac I'r Gad yn gweithio ac ar dderbyn adborth.

Mae'r economi sylfaen yn darparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol a nhw sy'n cynnal ein cymunedau. Caiiff pwysigrwydd hyn ei gydnabod gan Dasglu'r Cymoedd a chafodd ei ddefnyddio i helpu i ddatblygu cyfeiriad y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar yr economi sylfaen. Mae hyn yn ymrwymo i weithio gyda nifer o sectorau sylfaen ar hyd a lled Cymru er mwyn deall yr heriau y maen nhw'n eu hwynebu a chyfleoedd i dyfu ac arloesi. Bydd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn alinio ei dull gwaith gyda mentrau traws-lywodraethol yn cynnwys Tasglu'r Cymoedd.

Y Cynllun Cyflogadwyedd

Cafodd *Cynllun Cyflogadwyedd* Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2018, yn unol â'r ymrwymadau a wnaed yng nghynllun cyflawni *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*. Nod y Cynllun yw dileu'r bwlch rhwng graddfeydd diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r graddfeydd cyfartalog ym Mhrydain a'r bwlch cymwysterau rhwng Cymru a gweddill y DU.

Mae'n dod â sawl rhaglen sy'n bodoli'n barod ynghyd ac yn adeiladu arnynt ymhellach. Mae rhai ohonynt wedi cael eu defnyddio i adrodd ar nifer y bobl sydd wedi mynd yn ôl i'r gwaith o fewn ardaloedd Tasglu'r Cymoedd eleni. Mae'r rhain yn cynnwys Cymunedau am Waith, Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), Twf Swyddi Cymru, ReAct, a Swyddi Gwell yn Nes Adref sy'n helpu pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith, ac i sicrhau bod cyflogwyr yn gallu dod o hyd i'r sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn i'w busnes nhw ffynnu. Bydd y cynllun yn helpu i gyflawni'r camau gweithredu uchelgeisiol ar swyddi a sgiliau yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*.

Swyddi Gwell yn Nes Adref

Mae'r rhaglen hon wedi ei chynllunio i brofi'r defnydd o ymyriadau masnachol i greu cyflogaeth deg ac ystyrllon i bobl mewn ardaloedd sy'n draddodiadol wedi profi lefelau uchel o ddiweithdra. Mae pedwar cynllun peilot yn cael eu cynnal yn ardal tasglu'r Cymoedd.

Yn y pen draw, y gobaith yw y bydd cynlluniau peilot Swyddi Gwell yn Nes Adref yn creu swyddi newydd o ansawdd trwy greu cyfleoedd i fodloni gofynion y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae pob un o'r cynlluniau peilot yn wahanol ac yn profi ymyriadau masnachol penodol, a gallai'r rhain gael eu hefelychu mewn ardaloedd eraill yng Nghymru:

- Y cyntaf o'r cynlluniau peilot yw gweithio tuag at hyb gweithgynhyrchu dillad arbenigol. Gan weithio ar y cyd gyda'r sector cymdeithasol, bydd menter gymdeithasol yn cael ei phenodi i weithredu uned gynhyrchu yng Nglynebwy sy'n cynhyrchu dillad arbenigol o ansawdd uchel. Y nod

yw cynyddu cyflogadwyedd tymor hir yn yr ardal. Bydd unrhyw elw yn cael ei ail-fuddsoddi yn y busnes a'r gymuned leol. Mae disgwyl i'r ffatri fod ar waith erbyn hydref 2018 a bydd 25 o bobl yn cael eu cyflogi yno i ddechrau.

- Mae'r ail gynllun peilot yn ymwneud â gweithgynhyrchu arwyddion traffig a masnachol – arwyddion priffyrdd, arwyddion enwau stryd, arwyddion diogelwch a byrddau hysbysebu mawr. Mae'r fenter gymdeithasol hon eisoes yn bodoli ac yn cyflogi pobl sydd ag anableddau. Y nod yw cynyddu oriau gwaith y gweithlu presennol. Mae mwy o alw am arwyddion eisoes wedi golygu cynnydd mewn archebion gan brif contractwyr dau awdurdod lleol. Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd wedi nodi bod angen defnyddio'r ffatri ar gyfer yr arwyddion sydd eu hangen ar y corff.
- Bydd cerbyd pwrpasol yn cael ei greu er mwyn ailddefnyddio paent gwastraff a gaiff ei gasglu o safleoedd gwastraff awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd y cynllun yn dwyn ynghyd perchennog y patent ar gyfer y broses ailddefnyddio a menter gymdeithasol leol sy'n bwriadu efelychu'r broses, sydd ar hyn o bryd wedi ei leoli yn Birmingham. Byddant yn gweithredu'r un broses â Pharc Eco Bryn Pica yn Rhondda Cynon Taf.
- Mae'r cynllun peilot olaf yn canolbwyntio ar bapur wedi ei ailgylchu ac mae'n seiliedig ar fenter gymdeithasol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n cyflogi pobl ag anableddau, pobl ddigartref a phobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir eisoes. Mae'r cwmni'n casglu, dethol a charpio papur gwastraff.

Y Rhaglen Fynediad

Cafodd y Rhaglen Fynediad ei lansio ym mis Hydref 2017 ac mae'n cynnig cefnogaeth i oedolion di-waith sy'n byw yng Nghymoedd y De ac sydd angen ychydig o gymorth ychwanegol i ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith. Mae'n darparu grantiau sgiliau galwedigaethol er mwyn helpu i ddiweddarau sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth pobl. Mae tair rhan i'r cynllun:

- Grant hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer pobl sydd angen diweddarau eu sgiliau i gael gwaith.
- Grant cymorth ychwanegol i helpu i gael gwared ar unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag cael hyfforddiant galwedigaethol.
- Cyfraniad at gyflogau a help gyda chostau hyfforddi i gyflogwyr sy'n recriwtio.

Caiffy Rhaglen Mynediad ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei chynnig gydag ystod eang o gymorth arall gan sefydliadau partner fel Gyrfa Cymru a Chanolfan Byd Gwaith. Hyd yn hyn, mae'r Rhaglen Mynediad wedi derbyn mwy na 400 cais am gymorth. Mae Gyrfa Cymru yn datblygu adroddiad cynnydd ar y rhaglen, a fydd yn parhau tan fis Mawrth 2019. Bydd y canlyniadau llawn ar gael yn adroddiad cynnydd *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yn 2019.

Sgiliau a phrentisiaethau

Model prentisiaeth a rennir

Mae gwaith ar ddatblygu model prentisiaeth a rennir ym Merthyr Tudful yn dod yn ei flaen yn dda. Bydd prentisiaid yn cael eu rhoi mewn cwmni gweithgynhyrchu ym Merthyr a fydd yn gyfrifol amdanynt drwy gydol y brentisiaeth (dwy neu dair blynedd) ond byddant yn symud rhwng cyflogwyr sy'n bartneriaid yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y cwmni sy'n gyfrifol, y prentis a'r partner cyflawni yn cytuno ar lwybr dysgu. Mae prentisiaid yn cael eu talu graddfa uwch na'r isafswm cyflog prentisiaeth.

Mae'r broses recriwtio wedi digwydd gydag ysgolion a chyflogwyr lleol ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful. Mae'r model wedi ei gymeradwyo ac mae'r gwaith o recriwtio prentisiaid wedi dechrau. Mae recriwtio o fewn ysgolion yn digwydd ers amser ym Mlaenau Gwent ac mae'n gweithio'n dda. Mae'r gronfa gyflogwyr yn mynd o nerth i nerth. Mae recriwtio o fewn ysgolion a recriwtio cyflogwyr newydd ddechrau ym Merthyr Tudful.

Roedd Y Prentis yn rhan o'r gweithdy sgiliau adeiladau treftadaeth, a oedd yn ystyried cyfleoedd i gynnwys sgiliau adeiladu traddodiadol fel rhan o brentisiaethau adeiladu. Gan fod nifer o hen dai yn ardal y Cymoedd, daeth i'r amlwg y dylid cynnig y cyfle i ddysgu sgiliau traddodiadol fel rhan o'r cynllun prentisiaeth a rennir. Rydym yn parhau i fod yn y cyfnod ymgynghori ac yn ystyried y cyfleoedd sydd ar gael.

Yn dilyn y penderfyniad i ganolbwyntio ar gyflawni prentisiaethau lefel tri ac uwch, rydym ar hyn o bryd yn edrych ar opsiynau am ymyrraeth briodol i gynnig cefnogaeth i sgiliau lefel mynediad mewn sectorau fel manwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid. Rydym yn ystyried lansio hyn yn ardal tasglu'r Cymoedd.

Swyddogion gweithredol cyfrif i ysgolion uwchradd yng Nghymoedd y De

Mae swyddog gweithredol cyfrif ynghlwm wrth bob ysgol uwchradd yng Nghymoedd y De. Mae gwaith peilot yn cael ei ddatblygu gan dîm sgiliau Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru i alinio gweithgarwch cymorth gyrfaol a chymorth busnes. Y nod ywparu pobl leol sy'n chwilio am waith gyda chwmnïau bach a chanolig sydd eisïau recriwtio.

Cymorth i fusnesau

Gwobrau Cyllid Busnes

Sefydlwyd y Cynllun Cyllid Busnes er mwyn helpu i gefnogi prosiectau sy'n anelu i greu neu ddiogelu swyddi yng Nghymru. Daeth y cynllun i ben ym mis Mai 2018 a chafodd ei ddisodli gan Gronfa Dyfodol yr Economi, sydd yn ddull symlach a haws o weithio gyda chyllid busnes.

Rhwng Mai 2017 a Mai 2018, derbyniodd busnesau yn ardal tasglu'r Cymoedd 21 cynnig o gymorth gan Cyllid Busnes. Mae disgwyl i'r prosiectau hyn annog buddsoddiad cyfalaf o bron i £48m, gan greu 651 o swyddi a diogelu 667 swydd arall.

Un enghraifft o sut caiffy gronfa hon ei defnyddio yw'r cyhoeddiad gan Grŵp BBI yn 2017 ei fod yn cyfnerthu ac yn ehangu ei weithrediadau gweithgynhyrchu yn y DU mewn un lleoliad yng Nghaerffili, gan fuddsoddi £8.5m.

Derbyniodd Grŵp BBI grant Llywodraeth Cymru o £1.8m, a fydd yn helpu i gynyddu cyflogaeth o 180 i 366 erbyn 2020. Bydd y gronfa'n helpu i wella cyfleoedd gyrfaol yng Nghymoedd y De, meithrin cysylltiadau agos gyda'r gymuned wyddonol a'r gymuned academiaidd a rhoi hwb sylweddol i'r economi leol.

Busnes Cymru

Mae Busnes Cymru, gwasanaeth cymorth busnes dwyieithog Llywodraeth Cymru, wedi ei ddylunio i'w gwneud yn haws i fusnesau micro a busnesau bach a chanolig yng Nghymru gael mynediad at y wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i sefydlu a thyfu eu busnesau.

Mae rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru yn darparu cymorth arbenigol wedi ei deilwra'n arbennig i fusnesau sy'n dymuno tyfu'n sylweddol a chyflawni eu potensial i dyfu. Mae Laserwire Solutions wedi ei leoli ym Mhontypridd ac mae'r cwmni'n gweithgynhyrchu ystod gyflawn o beiriannau stripio Laserwire y gellir eu prynu wedi eu gwneud yn barod neu sydd wedi eu teilwra'n arbennig ar gyfer stripio deunydd insiwleiddio oddi ar geblau a gwifrau uwch dechnoleg gan ddefnyddio laser. Ers ymuno â rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru, mae Laserwire Solutions wedi creu 24 o swyddi, ac mae 13 ohonynt yn talu cyflog uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, ac mae'r cwmni wedi cynhyrchu gwerth £6.7m o drosiant allforio am reffeniw.

Rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018, mae gwasanaethau cyngori a chyflymu twf Busnes Cymru wedi:

- Helpu 996 o unigolion a busnesau bach.
- Creu 112 o fentrau newydd.
- Cynyddu cyflogaeth o 883.
- Cynyddu allforion gan gwmnïau yng Nghymru o £15,912,999.
- Buddsoddi £10,639,222 mewn mentrau.

Digwyddiad Creu Sbarc

Cynhaliodd Tasglu'r Cymoedd ddigwyddiad Creu Sbarc – Dathlu a Siapio Ein Cymoedd, Ein Dyfodol yng nghanolfan Redhouse ym Merthyr. Daeth busnesau ac entrepreneuriaid o bob cwr o'r Cymoedd i'r digwyddiad, a oedd yn gyfle i gyfarfod arloeswyr, buddsoddwyr a thalent academiaidd a rhwydweithio gyda nhw i drawsnewid syniadau heddiw yn gynnyrch a busnesau'r dyfodol.

Daeth tua 100 o bobl i'r digwyddiad. Cawsant glywed brif araith ysbrydoledig gan Helen Walbey, entrepreneur sy'n byw yng Nghwm Cynon. Nod y digwyddiad oedd hwyluso, cysylltu ac annog ymgysylltiad rhwng rhanddeiliaid. Roedd yn gyfle i gyfeirio pobl i'r lle cywir ac i ddarparu cyswllt rhwng busnesau newydd a mentrau sy'n bodoli'n barod. Rhoddodd gyfle i'r rhai a fynychodd ddatblygu eu syniadau a dysgu trwy wrando ar ambell stori a gyflwynwyd gan bobl sydd wedi datblygu eu syniadau a chreu busnes llwyddiannus.

Cyfleusterau busnes newydd

Mae bron i £6m o arian Ewropeaidd ac arian Llywodraeth Cymru yn cael ei fuddsoddi yng Nghymoedd y De i greu cyfleusterau busnes newydd.

Yn Nhresalem, Aberdâr, bydd menter gwerth £3.9m yn adeiladu 11 uned busnes newydd i gwrdd â'r gofyn yn lleol. Bydd yr unedau'n cael eu datblygu ar safle tir llwyd, oedd gynt yn iard nwyddau, yn agos i orsaf trenau Aberdâr a Choleg y Cymoedd.

Yng Nghaerffili, bydd £2m yn cael ei fuddsoddi yn Ystâd Ddiwydiannol Lawns, Rhymni, i adeiladu 10 uned newydd a datblygu seilwaith i gyd-fynd â nhw ar y safle. Ar hyn o bryd, mae 21 uned ddiwydiannol yn llawn ac mae rhestr aros sylweddol ar gyfer y safle.

Y cynnig gofal plant

Mae'r cynnig gofal plant yng Nghymru yn cael ei brofi mewn tair ardal yng Nghymoedd y De – yn rhannau o Rionda Cynon Taf, yng Nghaerffili ac ym Mlaenau Gwent – ac mewn pedair ardal arall ledled Cymru. Dechreuodd y cynlluniau peilot ym mis Medi 2017 ac fe ymestynnwyd y cynllun ym mis Ebrill 2018, felly mae'r cynnig nawr ar gael ar draws Caerffili a Blaenau Gwent. Bydd yn cael ei ymestyn i gynnwys pob ardal yn Rhondda Cynon Taf a Thorfaen o fis Medi 2018.

Bydd y cynnig yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a gaiff eu hariannu gan Lywodraeth Cymru am 48 wythnos y flwyddyn i rieni sydd mewn gwaith plant tair a phedair oed. Mae'r cynlluniau peilot wedi eu cynllunio i brofi'r cynnig, cymhwystra a nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynnig. Mae gwerthusiad annibynnol o flwyddyn gyntaf weithredol y cynnig yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae canlyniadau cychwynnol yn awgrymu bod nifer sylweddol o rieni sy'n manteisio ar y cynnig yn ennill cyflog sy'n gyfystyr â neu'n is na'r cyflog cyfartalog cenedlaethol, ac mae tystiolaeth newydd fod rhieni'n gwneud penderfyniadau gwahanol am gyflogaeth er mwyn cefnogi eu teuluoedd a chynyddu incwm.

Gwell gwasanaethau cyhoeddus

Thema 2: Gwell Gwasanaethau Cyhoeddus

Dywedsoch chi:

Mae'r gwasanaethau'n dda ond dylent weithio'n fwy ar y cyd...

... felly erbyn 2021 byddwn:



wedi cefnogi'r gwasanaethau i
**weithio ar
y cyd**
fel eu bod yn fwy effeithiol



wedi sicrhau
**trafnidiaeth
gyhoeddus**
well a chydgyssylltiedig y gall
pawb ei fforddio



wedi cefnogi mwy
o bobl i fyw
**bywyd
iach**



wedi sicrhau gwell
**deilliannau
addysg**
i blant

I gyflawni hynny byddwn:

- yn profi dulliau newydd i wella gwasanaethau lleol

- yn datblygu hybiau cymunedol

- yn sicrhau bod teithiau trenau a bysiau amlach, a'u bod yn hygyrch ac yn fforddiadwy

Un thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg o adborth y sesiynau ymgysylltu oedd bod angen i wasanaethau cyhoeddus fod yn fwy ymatebol i anghenion cymunedau lleol a bod angen i wasanaethau yn gyffredinol fod yn gydgyssylltiedig mewn ffordd fwy effeithiol.

Fel rhan o brofi ffyrdd o wella gwasanaethau lleol ac edrych am ffyrdd o'u hintegreiddio'n well, mae'r tasglu wedi bod yn gweithio ar dri phrosiect braenaru yn Llanhilledd, Glynrhedynnog a Glyn-nedd/Banwen. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r gwaith hwn wedi ei fwydo'n ôl i ddull gwaith ehangach y Tasglu.

Rydym ni eisiau gwella'r defnydd o gyfleusterau a gwasanaethau lleol – rydym ni'n edrych ar ddefnydd hybiau cymunedol sy'n bodoli'n barod a'u lleoliad, yn cynnwys defnydd cymunedol o adeiladau ysgol. Rydym ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymoedd y De i fapio'r ddarpariaeth gyffredol. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf a'r rhwydwaith cynrychiolwyr hybiau cymunedol sydd wedi ei sefydlu gan y tasglu i rannu'r hyn y maen nhw wedi ei ddysgu am gynnydd yr hybiau cymunedol yn eu hardaloedd nhw.

Roedd pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd yn bendant am yr angen am well trafndiaeth gyhoeddus; roedd ymrwymiad clir yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* i wella gwasanaethau trafndiaeth.

Mae Metro De Cymru yn rhaglen tymor hir i drawsnewid ac integreiddio trafndiaeth gyhoeddus ar draws y De. Rydym ni'n gwybod y bydd manteision y Metro'n cynnwys amseroedd teithio byrrach a theithiau amlach. Gan fod hon yn rhaglen tymor hir, rydym ni'n canolbwyntio ar gynlluniau trafndiaeth leol – yn 2017-18, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £8 miliwn mewn cynlluniau trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymoedd y De.

Gweledigaeth ddigidol i'r Cymoedd

Mae'r gwaith i ddatblygu gweledigaeth ddigidol i Gymoedd y De yn dod yn ei flaen yn dda.

Ym mis Ebrill 2018, cafodd tri chynllun peilot eu cymeradwyo gan y tasglu – mynediad gwell a mwy eang i Wi-Fi am ddim i bobl sy'n byw yn y Cymoedd; ap tebyg i Uber i bobl sydd angen archebu trafndiaeth gymunedol neu drafndiaeth y GIG ac ymchwilio i well defnydd o'r teclyn mapio data ar-lein, Lle.

Cafodd y tri syniad eu datblygu ar ôl cydweithio agos rhwng aelodau'r tasglu a chymunedau lleol i weld sut gallai'r we a thechnoleg ddigidol gael eu defnyddio i roi gwell canlyniadau i bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd. Maen nhw'n syniadau syml ond effeithiol, sydd â'r potensial i fod o fudd i gymunedau ar hyd a lled y Cymoedd.

Byddai gwell mynediad i Wi-Fi am ddim yn y Cymoedd yn golygu cydweithio rhwng y tasglu a sefydliadau sector cyhoeddus, ysgolion a hybiau cymunedol er mwyn annog y rhain i roi mynediad i'r cyhoedd i'w rhwydweithiau Wi-Fi lleol. Byddai hyn yn creu gwe eang o lecynnau Wi-Fi am ddim mewn cymunedau lleol, a gallai pobl gysylltu â'r rhain heb dalu pan maen nhw hwnt ac yma.

Byddai'r ap tebyg i Uber yn dod â darparwyr trafndiaeth gymunedol at ei gilydd i un lle digidol, ar-lein, er mwyn ei gwneud yn haws i bobl archebu trafndiaeth pan maen nhw angen mynd i apwyntiad ysbyty neu glinig. Y gobaith yw y gall y syniad gael ei ddatblygu ac y bydd peilot ohono'n cael ei roi ar waith yn un o gymunedau mwy diarffordd y Cymoedd.

Mae'r teclyn mapio data ar-lein, Lle, eisoes ar waith, ond y gobaith yw y gellir ei ddefnyddio'n ehangach a thrwy hynny annog mwy o fuddsoddi yng Nghymoedd y De.

Braenaru

Mae cael gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da, sydd wedi eu cydlynu a'u hintegreiddio, yn flaenoriaeth i'r tasglu ac i bobl sy'n byw yng Nghymoedd y De.

Sefydlodd y tasglu dri phrosiect braenaru i edrych ar sut i gyflawni hyn. Mae un uwch swyddog Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos gydag un gymuned yn y Cymoedd – ardal braenaru – i edrych am ffyrdd i integreiddio gwasanaethau'n well ac edrych ar sut gall gwasanaethau cyhoeddus weithio'n fwy effeithiol gyda chyrrff angori cymunedol.

Mae'r ardaloedd braenaru yn cydweithio i rannu arferion gorau ac maen nhw'n edrych ar yr hyn sydd ei angen ar eu cymunedau penodol nhw. Cafodd pob un o'r prosiectau braenaru sgysiau gydag aelodau'r gymuned a'r staff cyflawni yn gynnar yn y broses er mwyn darganfod beth oedd y materion oedd angen blaenoriaeth ymhob achos unigol.

Defnyddiwyd ymarfer casglu data cymdeithasol Canolfan Cynefin i ddarparu gwybodaeth oedd yn sail i'r gwaith hwn. Cafodd straeon eu casglu gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd ac fe'u dadansoddwyd. Er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a gydnabuwyd, mae'r prosiectau braenaru wedi trefnu a chytuno ar nifer o bwyntiau gweithredu. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- **Banwen/Glyn-nedd – Prosiectau cynhwysiant digidol** – Daethpwyd â chysylltiadau o Lywodraeth Cymru, darparwyd sgiliau/hyfforddiant lleol, rhaglenni cyflogadwyedd a swyddfeydd lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau at ei gilydd gan y prosiect braenaru i drafod cyflogadwyedd, sgiliau a hyfforddiant. Un canlyniad uniongyrchol sydd wedi dod o'r materion a godwyd gyda'r grŵp hwnnw yw Gweithdy DOVE, a fydd yn cyflwyno rhaglen wedi ei theilwra'n arbennig yn ymdrin â themâu cynhwysiant digidol. Byddant yn cynnig cefnogaeth i unigolion i ddefnyddio technoleg, sefydlu cyfrifon e-bost, rhoi help llaw i chwilio am swydd neu wneud cais am fudd-daliadau. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cynnig cyngor ac arweiniad i'r rhai sy'n elwa er mwyn annog cynnydd a chyfle i ddysgu, cyfle i wneud gweithgareddau a chyfleoedd cyflogaeth.
- **Partneriaeth Fern** – Mae gan yr ysgol gymunedol glwb codio llwyddiannus ac mae'r prosiect braenaru wedi bod yn ystyried sut i gefnogi'r clwb i ehangu. Mae gwaith wedi dechrau i drefnu i brentisiaid digidol Llywodraeth Cymru ddefnyddio eu horiau gwirfoddol yn yr ysgol yn cynorthwyo'r disgyblion, a hefyd yn darparu sesiynau hyfforddi'r hyfforddwyr er mwyn i'r athrawon a'r gweithwyr cynorthwyol allu helpu fel bo angen.
- **Llanhilledd** – Gan adeiladu ar lwyddiant prosiect llythrennedd Sefydliad y Glowyr yn Llanhilledd, Readability, mae'r prosiect braenaru wedi gweithio er mwyn datblygu rhaglen sgiliau digidol yn y Sefydliad. Trwy ddatblygu cysylltiadau gyda chwrs ôl-radd Cyfrifiadureg Prifysgol Caerdydd, mae myfyrwyr o'r cwrs wedi cyflwyno sesiynau wedi eu teilwra'n arbennig yn y Sefydliad sy'n amrywio o ddod i arfer â thechnoleg i godio ac adeiladu gwefannau. Mae'r rhaglen yn cael ei hymestyn i gynnwys sesiynau i'r teulu dros wyliau'r haf a bydd set gyflawn o gyrsiau ar gael o fis Medi 2018. I gefnogi'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi yn y seilwaith a'r caledwedd sydd ar gael yn y Sefydliad er mwyn ei sefydlu fel hyb sgiliau digidol cymunedol i'r ardal.

Bydd y prosiectau braenaru nawr yn gwerthuso'r gwaith sydd wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf ac yn dod at ei gilydd fel tri grŵp i rannu arferion gorau ac ystyried awgrymiadau ac argymhellion at y dyfodol. Byddant hefyd

yn adrodd yn ôl ar eu canlyniadau ac ar y camau nesaf yn un o Gyfarfodydd y Tasglu Gweinidogol yn y dyfodol.

Hybiau cymunedol

Mae'r tasglu'n credu y gall ystod o wasanaethau cyhoeddus ddod ynghyd o dan un to gyda'r trydydd sector mewn hybiau cymunedol.

Rydym ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol, y GIG a chyrrff trydydd sector i sefydlu pa wasanaethau sydd ar gael mewn hybiau cymunedol sy'n bodoli'n barod a beth yw'r bylchau mewn darpariaeth ar hyn o bryd. Mae cyfleoedd i gefnogi'r dull hyb cymunedol o weithio wedi eu mapio ar draws adrannau Llywodraeth Cymru er mwyn darparu dull gwaith mwy strategol wrth ddatblygu hybiau cymunedol.

Mae cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio wedi eu cynnal i alluogi partneriaid o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymoedd y De i rannu ymarfer da a chasglu gwybodaeth er mwyn datblygu arweiniad i'r rhai hynny sy'n dymuno sefydlu hybiau newydd. Mae'r gwaith o geisio adnabod y rhwystrau a'r atebion posibl i sefydlu a chynnal hybiau cymunedol eisoes wedi dechrau.

Yn dilyn cyhoeddi *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* a'r ymrwymiad i ddatblygu hybiau cymunedol, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cynnig rhaglen fuddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol trwy ddatblygu hybiau cymunedol. Mae'r tasglu'n cydweithio'n agos â grŵp gweithredu ardaloedd cymunedol y cyngor wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Glynrhedynnog fydd un o'r trefi cyntaf i fanteisio ar hyb cymunedol. Mae'r cyngor yn cydweithio â Phartneriaeth Fern i ddatblygu'r hyb, a fydd yn gartref i ystod o wasanaethau cymunedol, yn cynnwys Llyfrgell Glynrhedynnog a fydd yn symud yno. Bydd Partneriaeth Fern hefyd yn darparu gwasanaethau gofal plant yn yr hyb ac ystod o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth, yn cynnwys rhaglenni cymorth cyflogaeth.

Bwriad y tasglu yw dysgu o'r gwaith yn Rhondda Cynon Taf a'i rannu'n fwy eang ledled y Cymoedd.

Iechyd

Daeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgysylltu cynhwysfawr a arweiniodd at gyhoeddi *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* fod pobl yn y Cymoedd yn teimlo nad oedd y gwasanaethau iechyd meddwl yn cynnig digon o gefnogaeth. Mae cyflwyno'r bond lles a hybu presgripsiynu cymdeithasol wedi bod yn flaenoriaeth i'r tasglu a'i bartneriaid eleni.

Bond Lles

Ym mis Chwefror 2018, penderfynodd y Gweinidogion y dylid cyflwyno'r bond lles mewn ffordd integredig, sydd wedi ei alinio â'r ymrwymiad i gyflwyno Cronfa Her i Chwaraeon. Bydd hyn yn fater o sefydlu cronfa integredig newydd sydd â'r nod o wella iechyd meddyliol a chorfforol trwy alluogi bywyd iach ac egniol, gan ganolbwyntio i ddechrau ar ddatblygu a chryfhau asedau cymunedol. Y gobaith yw y daw ceisiadau gan gyrff statudol ac anstatudol, a bydd disgwyl iddynt ymgysylltu â chymunedau lleol wrth ddatblygu eu cynigion. Bydd gwaith targedu'n digwydd i annog ceisiadau o'r cymoedd, a bydd disgwyl i brosiectau fod ar waith yn gynnar yn 2019.

Presgripsiynu cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflwyno peilot presgripsiynu cymdeithasol mewn iechyd meddwl.

Mae ceisiadau wedi eu gwahodd i gyflwyno prosiectau peilot a fydd yn cynnwys gweithiwr cyswllt. Bydd y gweithiwr cyswllt yn cymryd cyfeiriadau o ofal sylfaenol ac o leiaf un ffynhonnell arall, ac yn gweithio gyda phobl i'w cyfeirio at y man cefnogaeth gymunedol fwyaf priodol er mwyn eu helpu i reoli eu lles a'u hiechyd meddwl. Bydd y prosiectau peilot yn gweithredu mewn o leiaf ddwy ardal, gydag o leiaf un ohonynt yn y Cymoedd, a byddant yn cael eu hariannu am 3 blynedd.

Mae'r cynllun peilot wedi ei gynllunio i ddarparu arbrawf effeithiol i weld beth sy'n gweithio o safbwynt presgripsiynu cymdeithasol ar gyfer iechyd meddwl. Bydd yr elfen werthuso'n rhoi sylw i'r broses, yr effaith a gwerth am arian er mwyn cael gwybodaeth fanwl i'w hychwanegu i'r sail dystiolaeth.

Trafnidiaeth

Metro De Cymru

Metro De Cymru fydd y templed ar gyfer trafndiaeth integredig ar hyd a lled Cymru. Bydd yn gwella cysylltiadau rhwng cymunedau'r Cymoedd a gweddill y De ond bydd hefyd yn cefnogi'r economi'n ehangach trwy wella cysylltedd trwy Gymru. Bydd yn galluogi pobl i symud o gwmpas yn well ac yn rhoi gwell mynediad i swyddi a gwasanaethau.

Rhaglen tymor hir yw Metro De Cymru i drawsnewid ac integreiddio trafndiaeth gyhoeddus ar draws y De. Mae'r Metro'n cael ei ddatblygu ar y cyd â chyflwyno cytundeb gwasanaethau rheilffordd newydd i Gymru a'r Gororau.

Mae ardal Metro De Cymru'n cynnwys y llinellau rheilffordd i Faesteg, Pen-y-bont ar Ogwr trwy Fro Morgannwg, Treherbert, Aberdâr, Merthyr, Rhymni, Ebwy a'r Fenni, yn ogystal â Phrif Linell De Cymru rhwng Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Chasnewydd.

Bydd manteision Metro De Cymru yn cynnwys:

- Gwell amseroedd teithio a theithiau amlach i'w cymharu â'r amserlen gyfredol;
- Gwell gwybodaeth a chyfathrebu i deithwyr;
- Gwasanaethau integredig a mwy o integreiddio gyda llwybrau teithiau sydd eisoes yn weithredol;
- Prisiau mwy syml a theg;

- Gwell mynediad i drenau a gorsafoedd, yn enwedig i bobl anabl. Bydd hyn yn cynnwys dyblu'r gwasanaethau i gefnogi rhaglen Gwell Swyddi'n Nes Adref y cyfeiriwyd ati uchod, gyda phedwar gwasanaeth yr awr o Dreherbert, Aberdâr a Merthyr o 2022 ac o Rymni o 2023, gyda gwasanaeth dydd Sul yn darparu dau wasanaeth yr awr o 2024;
- Dyblu gwasanaethau (dau wasanaeth yr awr) ar linell Glynebwy o 2021 ac ar linell Bro Morgannwg o 2023;
- 45% yn fwy o seddi ar wasanaethau i mewn i Gaerdydd yn ystod oriau brig y bore;
- Fflyd o gerbydau Metro modern a hygyrch iawn sy'n gallu cael eu defnyddio ar y stryd i wasanaethu llinellau Taf, y Fro a'r Ddinas a threnau newydd arloesol tri modd ar gyfer llinellau Rhymni, Coryton, Penarth, y Barri a'r Fro ar gyfer y gwasanaethau sy'n mynd ymlaen i'r llinellau di-drydan i'r de a'r gorllewin o orsaf Caerdydd Canolog;
- Tyniant trydanol 100% ar bob trê'n sy'n teithio ar wasanaethau Llinell y Cymoedd ac sy'n teithio drwy orsaf Caerdydd Stryd y Frenhines.

Erbyn diwedd 2019, bydd pob trê'n Pacer wedi ei dynnu oddi ar y rhwydwaith.

Mae'r bws yn elfen hanfodol o drafnidiaeth gyhoeddus ac mae Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar wasanaethau bws. Bydd Trafnidiaeth Cymru'n adolygu sut i ddarparu gwasanaethau bws yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod cymunedau trefol a gwledig fel ei gilydd yn elwa ar wasanaeth trafndiaeth gyhoeddus fodern ac integredig ar draws Cymru.

Bydd buddsoddi mewn gwasanaethau rheilffordd yn darparu gwell cysylltiadau gyda theithio ar fws. Mae'r potensial i symud arosfannau bws a datblygu cyfleusterau parcio a theithio strategol yn golygu y bydd elfennau rheilffordd y Metro yn fwy hygyrch. Bydd systemau gwybodaeth i deithwyr integredig a gwell systemau i ddod o hyd i'r llwybr gorau'n ei gwneud yn haws cynllunio taith o ddrws i ddrws ac yn gwneud trafndiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch.

Bydd Trafnidiaeth Cymru'n gweithio gyda gweithredwyr gwasanaethau bws i hybu tocynnau sy'n gallu cael eu defnyddio ar fws a trê'n.

Bydd Trafnidiaeth Cymru'n ymgysylltu â chymunedau lleol, awdurdodau lleol a chwmnïau bws i drafod eu rôl nhw mewn system trafndiaeth ranbarthol integredig a sut y gallant elwa arni.

Pencadlys Trafnidiaeth Cymru

Trafnidiaeth Cymru yw cwmni nid er elw Llywodraeth Cymru a fydd yn wyneb i'r Metro a'r gwasanaeth rheilffordd fwy eang i Gymru a'r Gororau. Bydd y pencadlys newydd yn cael ei leoli yn ailddatblygiad pwysig Bro Taf ym Mhontypridd. Mae Bro Taf yn fenter strategol bwysig sy'n cael ei chyflawni gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'r ailddatblygiad yn cael ei gefnogi gan becyn ariannu sy'n cynnwys £30 miliwn gan y cyngor a £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ychwanegol i £7 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Bydd rhai cannoedd o aelodau staff wedi eu lleoli yn y pencadlys newydd sydd wedi ei sefydlu er mwyn llywio ein gweledigaeth o rwydwaith trafndiaeth ddiogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o ansawdd uchel. Y gobaith yw y bydd y swyddi newydd hyn yn sbardun i adfywio mwy eang yn lleol. Mae gosod swyddfa Trafnidiaeth Cymru a'i bartneriaid yng nghalon y Cymoedd yn ffordd o danlinellu'n uchelgais ni i weld Metro sy'n ysgogi adfywiad y rhanbarth cyfan.

Canolfan Rhagoriaeth Rheilffyrdd Byd-eang

Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu Canolfan Rhagoriaeth Rheilffyrdd Byd-eang gwerth £100 miliwn ar safle yn Onllwyn/Nant Helen ym mhen uchaf Cwm Dulais. Bydd y ganolfan yn cyflogi mwy na 100 o bobl yn uniongyrchol gan ddefnyddio sgiliau sydd ganddynt yn barod yn ogystal â sgiliau newydd. Bydd hefyd yn darparu cyfle economaidd sylweddol a chynaliadwy i ardal sy'n hanesyddol wedi bod yn ddibynol ar y diwydiant glo. Yn ehangach, bydd ysgogi arloesedd a thwf y diwydiant rheilffordd a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Depo newydd

Mae bron i £100 miliwn yn cael ei fuddsoddi ar ddepo rheilffordd newydd, a fydd yn cael ei adeiladu yn Ffynnon Taf ar safle a brynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2016. Bydd yn gartref i 36 o'r cerbydau Metro newydd a fydd yn teithio ar linellau Bro Taf, ac yn y pen draw fe fydd hefyd yn brif safle i'r gweithlu o 400 o staff sy'n gweithio ar y trenau a'r 35 aelod staff sy'n cynnal a chadw cerbydau'r Metro.

Bydd y depo newydd yn Ffynnon Taf yn ategu'r rhai sy'n bodoli'n barod a fydd yn parhau i gael eu defnyddio. Un enghraifft o'r rhain yw depo Treganna, ble bydd £5 miliwn yn cael ei fuddsoddi i foderneiddio'r cyfleusterau cynnal a chadw i allu ymdrin â'r stoc trenau tri modd newydd. Gyda'i gilydd, bydd y safleoedd hyn yn rhan hollbwysig o weithrediad Metro De Cymru.

Bydd y depo newydd yn Ffynnon Taf hefyd yn gartref i ganolfan reoli integredig ar gyfer Metro De Cymru a bydd yn cyflogi 52 aelod o staff.

Cynlluniau trafndiaeth leol y Cymoedd

Mae'r tasglu wedi ystyried cynllunio trafndiaeth leol er mwyn sicrhau gwell cysylltedd ar draws y Cymoedd. Yn 2017-18, buddsoddodd Llywodraeth Cymru tua £8m mewn cynlluniau trafndiaeth leol yng Nghymoedd y De.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dyrannu £25 miliwn i awdurdodau lleol ledled Cymru trwy'r cynllun Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau yn 2016-17 a 2017-18 er mwyn eu galluogi nhw i roi cymhorthdal i wasanaethau trafndiaeth bws a thrafnidiaeth gymunedol. Mae hyn yn darparu cefnogaeth i gysylltedd a mynediad i addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a digwyddiadau cymdeithasol.

Ysgolion yr 21ain ganrif

Yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* roedd y tasglu wedi ymrwymo i edrych ar ffyrdd o wella cyfleusterau a gwasanaethau o fewn cymunedau a'u defnyddio'n fwy effeithiol. Rydym ni felly'n adeiladu ar Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio goresgyn rhwystrau a chefnogi dysgu trwy ddarparu ysgolion a cholegau addas i'r pwrpas ac o'r maint cywir yn y lleoliad cywir gyda'r cyfleusterau cywir i addysgu'r cwricwlwm newydd.

Un enghraifft o hyn yw Ysgol Idris Davies yng Nghaerffili. Mae 240 o lefydd yn yr ysgol gynradd newydd hon sydd wedi costio £8 miliwn i'w hadeiladu ac mae ganddi hefyd 30 o lefydd meithrin. Mae'r ysgol wedi disodli dwy ysgol gynradd yn Abertyswg a Phontlotyn. Cafodd ei hadeiladu ar dir o fewn safle Ysgol Gyfun Rhymni ger Abertyswg. Dyma'r ysgol 3-19 oed gyntaf yn yr ardal a chafodd ei henwi ar ôl y bardd enwog a anwyd yn Rhymni ym 1905.

Agorwyd Ysgol Idris Davies gan y Prif Weinidog ym mis Ebrill 2018. Nod yr ysgol newydd yw codi safonau addysgol a gwella cyfleoedd bywyd trwy leihau lefelau tlodi. Mae 32 prosiect yn ardaloedd y tasglu wedi derbyn cymorth hyd yn hyn trwy Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae 14 o'r rhain wedi eu cwblhau ac mae 18 yn parhau i gael eu hadeiladu. Mae cynlluniau rhaglen strategol ar gyfer Band B y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2019, wedi eu derbyn gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach. Mae achosion busnes unigol nawr yn cael eu hasesu.

Tai

Tai fforddiadwy

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed uchelgeisiol o adeiladu 20,000 o dai fforddiadwy dros gyfnod y Cynulliad presennol – a bydd llawer o'r rhain yn cael eu hadeiladu yng Nghymoedd y De. Mae arian yn cael ei fuddsoddi mewn ystod o ddeiliadaethau a mentrau i fynd i'r afael â'r gwahanol anghenion tai ar draws Cymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafodd £52 miliwn ei fuddsoddi yng Nghymoedd y De trwy'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol. Mae'r arian hwn yn cyflawni nifer o wahanol ganlyniadau, gan gynnwys fflatiau cymdeithasol newydd ar rent a chynllun tai â chymorth ar safle cyn-orsaf dân Bargoed, sy'n helpu pobl i adennill neu ddatblygu eu hyder a'u gallu i fyw'n annibynnol.

Mae arloesedd mewn perthynas â thai hefyd yn derbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae menter Tai Cydweithredol Cymru wedi arwain at ddatblygu modelau tai cydweithredol yn y Cymoedd, yn cynnwys Gellideg ym Merthyr Tudful a Rhydyfelin yn Rhondda Cynon Taf.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, cafodd £1.1 miliwn o raglen Tai Arloesol ei fuddsoddi yng Ngrŵp Pobl – landlord cymdeithasol mwyaf Cymru. O ganlyniad, bydd 16 o gartrefi newydd yng Nghastell-nedd wedi eu cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2019. Prosiect braenaru fydd hwn ar gyfer datblygiadau mwy yn y dyfodol a fydd yn adeiladu Tai fel Gorsafoedd Pŵer.

Mae Tai fel Gorsafoedd Pŵer yn ffordd o adeiladu tai sy'n anelu i leihau carbon a mynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy adeiladu tai sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithiol ac sy'n rhatach i'w cynnal. Bydd y prosiect braenaru hwn yn creu canolfan rhagoriaeth ar gyfer rhannu arbenigedd i ddatblygu sgiliau a chefnogi diwydiant lleol.

Safleoedd tir ar gyfer tai

Mae adrannau Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'i gilydd i gynnig safleoedd tir ar gyfer datblygu tai. Mae Tŷ Du yn Nelson yn flaenoriaeth strategol i Gyngor Caerffili lle y gellid adeiladu bron i 200 o dai yn agos i orsaf Metro. Bydd y potensial i gael dyluniad arloesol ac eiddo sy'n defnyddio ynni'n effeithiol yn cael ei gynnwys yn y manylion a fydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y safle.

Safon Ansawdd Tai Cymru

Mae dros 224,000 o dai cymdeithasol yng Nghymru sy'n cael eu darparu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chynghorau sy'n parhau i fod yn berchen ar dai. Mae'r rhain yn gartrefi i rai o bobl dlotaf a mwyaf bregus cymdeithas. Er mwyn sicrhau bod pobl yn byw mewn tai o safon, mae'n rhaid i'r tai fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn mis Rhagfyr 2020.

Er mwyn helpu i ariannu'r gwelliannau angenrheidiol, mae Llywodraeth Cymru yn darparu dros £27 miliwn o arian cyfalaf bob blwyddyn i Awdurdodau Tai Lleol (trwy'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr) a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n Trosglwyddo Stoc (trwy arian Cyllid Gwaddol). Rydym ni'n monitro cynnydd yn fanwl i sicrhau eu bod yn bodloni'r Safon ac yn defnyddio nifer o ddulliau o wneud hynny gan gynnwys datganiad ystadegol blynyddol, sy'n ofynnol ar gyfer cynlluniau busnes blynyddol, a chyfarfodydd rheolaidd gyda landlordiaid. Rydym hefyd yn gofyn iddynt ddefnyddio cymorth ein grant i sicrhau swyddi, hyfforddiant a buddiannau eraill trwy gymryd mantais o'r hyn sydd ar gael yn y gymuned. Mae hyn yn mynd law yn llaw â phrif flaenoriaethau'r Cabinet sef iechyd, addysg a swyddi. Mae landlordiaid yn adrodd ar y manteision hyn trwy declyn Gwerth Cymru.

Fy nghymuned leol

Thema 3: Fy Nghymuned

Dywedsoch
chi:

Rydych chi'n falch o'ch cymuned ac am dynnu sylw at harddwch a threftadaeth y Cymoedd...

... felly erbyn 2021 byddwn:



wedi gwella
twristiaeth
yn y Cymoedd



wedi creu
Parc Tirwedd y Cymoedd
i helpu cymunedau i wneud y gorau o'u hadnoddau naturiol



wedi helpu
canol trefi
i fod yn fywiog

I gyflawni hynny byddwn:

- yn datblygu Parc Tirwedd y Cymoedd

- yn newid canol trefi fel bod ganddynt gymysgedd o siopau, cartrefi, busnesau a lleoedd gwyrdd

- yn hybu'r Cymoedd fel cyrchfan i dwristiaid

Mae Parc Tirweddau'r Cymoedd wrth wraidd ein huchelgais i helpu cymunedau'r Cymoedd i ddathlu a manteisio ar eu hadnoddau naturiol a'u treftadaeth. Y weledigaeth ar gyfer y parc yw bod cymunedau'n teimlo'n falch o ddweud mai'r Cymoedd yw eu cartref nhw a bod busnesau'n dewis gweithredu yno. Rydym ni eisiau i gymunedau deimlo wedi eu grymuso ac yn falch mewn amgylchfyd sy'n hygyrch ac yn cael ei ddefnyddio'n eang.

Rydym ni eisiau sicrhau bod canol trefi'r Cymoedd yn fywiog a bod ganddynt ardaloedd gwyrdd deniadol sy'n helpu'r economi leol. Mae'r Gronfa Benthyciadau Canol Trefi sy'n werth £20 miliwn, yn helpu

i adfywio cymunedau ar hyd a lled Cymru ac mae enghreifftiau da o sut mae hyn yn helpu canol trefi yn y Cymoedd.

Rydym ni eisiau i'r Cymoedd fod yn lle y mae ymwelwyr eisiau ymweld ag ef. Mae ymwelwyr yn gwario tua £14 miliwn y dydd yn ystod eu cyfnod yng Nghymru, ac mae hyn yn dod i gyfanswm o ryw £5.1 biliwn y flwyddyn. Rydym ni eisiau tyfu'r economi twristiaeth yn y Cymoedd er mwyn i'r ardal fanteisio ar yr effaith economaidd hon. Ar hyn o bryd, rydym ni'n gweithio gyda nifer o ddatblygiadau twristiaeth o ansawdd uchel. Os bydd y rhain yn cael eu gwireddu, byddant yn parhau i ddenu ymwelwyr newydd sy'n gwario llawer i'r Cymoedd.

Parc Tirweddau'r Cymoedd

Roedd y cynnig am Barc Tirweddau'r Cymoedd wedi ei gynnwys yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* ac mae'r tasglu wedi parhau i siarad gyda chymunedau yn y Cymoedd ynghyd â chyrff eraill sy'n bartneriaid, gan sicrhau eu bod yn rhan o bethau wrth i'r syniad gael ei lunio a'i ddatblygu.

Y weledigaeth ar gyfer Parc Tirweddau'r Cymoedd yw:

- Mae'r Cymoedd yn lle y mae pobl yn falch o'i alw'n gartref ac mae busnesau'n dewis gweithredu yma.
- Mae cymunedau wedi eu grymuso ac yn dangos balchder yn eu hamgylchedd sy'n hygyrch ac yn cael ei ddefnyddio'n eang.
- Mae'r amgylchfyd naturiol wrth wraidd bywyd yn y Cymoedd.

Ar ôl i weithdai rhanddeiliaid penodol gael eu cynnal ym Medwas a Garwnant, cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu yn Nhredegar, Aberdâr a Phontardawe a daeth nifer dda i bob un. Roedd rhai o'r mynychwyr yn cynrychioli'r sector busnes ond roedd yno hefyd gynrychiolwyr o gyrrff cymunedol, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Cafwyd dealltwriaeth bwysig, syniadau a digon i gnoi cil arno yn y gweithdai hyn. Ar hyn o bryd, mae'r cynigion datblygu wedi eu rhannu'n dair thema sy'n gysylltiedig â'i gilydd:

Tirwedd, Diwylliant a Hunaniaeth

Mae'r thema hon yn ceisio dathlu a hybu tirweddau naturiol a diwylliannol unigryw'r Cymoedd. Un nod penodol yw datblygu porth mynediad neu safleoedd darganfod o ansawdd uchel i annog ymwelwyr a phobl leol i ddod i grwydro'r Cymoedd.

Hamdden a Lles

Bydd y thema hon yn parhau i weithio ar draws nifer o sectorau gwahanol i wella cyfleoedd yn yr awyr agored a chefnogi twristiaeth gynaliadwy – er enghraifft, gwella a hybu llwybrau pellter hir sy'n cysylltu â'i gilydd

ar gyfer cerdded a beicio a hybu ffordd egniol o fyw er mwyn gwella iechyd a lles y gymuned leol.

Cymunedau a Menter

Y nod fan hyn yw grymuso cymunedau i fod yn rhan fwy gweithgar yn asedau treftadaeth naturiol a diwylliannol y Cymoedd a chymryd mwy o gyfrifoldeb drostynt. Un o'r cynigion penodol yw datblygu rhwydwaith cymorth cymunedol i Barc Tirweddau'r Cymoedd a gaiff ei gynnal gan y bobl leol i'r bobl o'u cwmpas. Cynnig arall yw menter 'gwarcheidwad' i gefnogi hyfforddiant, datblygiad sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth.

Dechreuodd cyfnod cychwynnol ar gyfer y parc tirweddau ym mis Mai 2018. Bydd y tîm yn cadarnhau'r cynigion a'r safonau ansawdd gyda'r partneriaid, yn cynnwys awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a chymunedau lleol. Yn ystod y cyfnod hwn, byddant yn cytuno ar gynlluniau gwelliant ac yn eu cyflawni ar gyfer y set gyntaf o safleoedd a llwybrau i'w cynnwys yn y parc tirweddau. Byddant hefyd yn sefydlu rhwydwaith cymunedol gan bobl leol i bobl leol. Nod y rhwydwaith yw rhannu profiad a gwersi rhwng gwahanol gymunedau'r Cymoedd.

Unwaith y bydd y cyfnod hwn wedi ei gwblhau yn gynnar yn 2019, bydd y strwythurau ac arian tymor hir yn eu lle er mwyn gweithredu a datblygu'r parc tirweddau ymhellach.

Adfywio Canol Trefi

Mae Cronfa Benthyciadau Canol Trefi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru, sy'n werth £27.5 miliwn, yn helpu i gefnogi adfywiad canol trefi mewn 17 o ardaloedd ledled Cymru.

Bydd benthyciad canol trefi o £500,000, ar ben benthyciad cynharach o £1 miliwn, yn cefnogi adfywio yng Nghastell-nedd Port Talbot fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu ffyniant yng nghymunedau'r Cymoedd.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn bwriadu defnyddio'r benthyciadau hyn i sicrhau safleoedd allweddol yng nghanol tref Castell-nedd i gefnogi rhaglenni adfywio mawr. Mae'r cyngor yn bwriadu datblygu adeiladau gwag neu adeiladau a safleoedd nad ydynt yn cael llawer o ddefnydd i ddarparu cyfleoedd preswyl, masnachol a chyflogaeth.

Nod y Gronfa Benthyciadau Canol Trefi yw annog pobl a sefydliadau i ddechrau defnyddio safleoedd ac eiddo gwag, neu sy'n cael eu tanddefnyddio, unwaith eto. Mae'n cefnogi gweithgareddau sy'n cynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol trefi, yn mynd i'r afael â safleoedd gwag ac yn helpu busnesau i dyfu a ffynnu. Ar ôl i fenthyciadau gael eu had-dalu, mae'r arian yn cael ei ddefnyddio eto i ariannu benthyciadau newydd hyd at gyfnod o 15 mlynedd.

Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy

Rydym yn cefnogi datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol sy'n eiddo i bobl leol yn y Cymoedd. Byddwn yn nodi'r cyfleoedd gorau trwy ddod ag asiantaethau lleol a chenedlaethol ynghyd i ddarparu prosiectau. Mae'r Gwasanaeth Ynni Lleol (LES) yn gweithio gyda phedair cymuned yn y Cymoedd ar eu hopsiynau ynni adnewyddadwy. Mae'r grwpiau wedi cyrraedd gwahanol bwyntiau ac yn wynebu gwahanol heriau y byddwn ni'n gweithio i'w goresgyn cyn i'r datblygiadau gael eu hadeiladu. Mae manylion y cynlluniau wedi'u rhestru isod:

Partneriaeth Fern, Glynrhedynog, Rhondda Cynon Taf – mae'r bartneriaeth hon yn darparu pob math o brosiectau ar lefel ysgol a chymuned yn y Rhondda Fach Uchaf yn bennaf ond yn fwy diweddar yn y Rhondda Fawr a thu hwnt hefyd. Erbyn hyn, mae'n ymchwilio i asedau ynni adnewyddadwy posibl a thechnolegau ynni adnewyddadwy posibl y gellid eu defnyddio yn yr ardal.

Glofa Navigation Trust, Cynllun Ynni Dŵr Crymlyn, Crymlyn, Caerffili – mae'r elusen yn gweithio i helpu i adfywio, gwarchod a chynnal a chadw'r

adeiladau a'r tir hanesyddol sy'n rhan o Lofa Navigation yng Nghrymlyn. Mae'n awyddus i adfywio'r safle i gynnwys cynllun ynni dŵr a gwres geothermol dŵr mwyngloddiau; byddai'r rhain yn cael eu hintegreiddio fel rhan o ailddatblygiad ehangach y safle, sy'n wag ar hyn o bryd. Mae'r prosiectau ynni adnewyddadwy yn cael eu datblygu i helpu i gyflwyno budd i'r safle a'r gymuned o'i gwmpas.

H Factor Community Group – grŵp cymunedol a sefydlwyd yn wreiddiol i fynd i'r afael â materion tai. Mae wedi llwyddo i wneud cais am gyllid gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i greu cymuned yn Aberfan sy'n cynhyrchu ei hynni ei hun, yn trechu tlodi tanwydd ac yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion cymdeithasol eraill. Mae'n ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio amrywiaeth o dechnolegau i wneud hyn, gan gynnwys storio solar ac ynni dŵr o bosibl.

Canolfan Galw Heibio Ieuenctid Senghennydd (Senghennydd Youth Drop In Centre – SYDIC), Senghennydd – mae SYDIC yn brosiect ymgysylltu amlweddol sy'n gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc a'r gymuned leol i ddatblygu cyfranogiad ac ymrwymiad i brosiectau cymunedol, datblygu cymunedol, cydlyniant a chynaliadwyedd. Mae prosiect Tyrbin Cymuned Dyffryn Aber yn dyrbin gwynt sy'n gallu cynhyrchu hyd at 900kw yn Senghennydd, ac mae opsiynau'n cael eu harchwilio ar gyfer defnyddio'r prosiect hwn i gyflenwi ynni'n lleol neu fel rhan o brosiect storio ynni arloesol.

Twristiaeth

Un o'r ymrwymadau yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* yw cynyddu twristiaeth yng Nghymoedd y De.

Nod prosiect £4.6 miliwn M&B Canal Adventure Triangle, a gymeradwywyd ar gyfer cyllid ym mis Gorffennaf 2018, yw datblygu gweithgareddau hamdden a thwristiaeth awyr agored ar hyd camlas Sir Mynwy ac Aberhonddu yn Nhorfaen a Chaerffili ac yn ucheldir Mynydd Maen. Trwy fuddsoddi mewn seilwaith ffisegol a hybiau cyfagos i ymwelwyr, bydd y prosiect yn helpu i ddatblygu potensial economaidd y gamlas fel

lle da i ymweld ag ef ac i fyw a gweithio, gan gynhyrchu buddsoddiad a chyflogaeth i gymunedau lleol.

Bydd y prosiect yn cael ei ddarparu gan bartneriaeth sy'n cynnwys Cyngor Torfaen, Cyngor Caerffili, Glandŵr Cymru ac Ymddiriedolaeth Camlas Mynwy, Aberhonddu a'r Fenni.

Bydd buddsoddiadau'n cynnwys adeiladu canolfan gweithgareddau i ymwelwyr ym masn camlas Pont-y-moel ym Mhont-y-pŵl, seilwaith i wella mynediad i ddatblygiad basn camlas newydd yn Ne Sebastopol ac adnewyddu'r gamlas yng Nghwmbrân ac ar hyd coridor y gamlas. Bydd ymwelwyr yn cael eu hannog i roi cynnig ar chwaraeon antur gan ddefnyddio'r dirwedd ucheldirol naturiol ysblennydd a'r dreftadaeth gyfoethog sy'n bodoli rhwng Torfaen a Rhisga.

Y ffocws allweddol yng Nghwmcarn fydd cynyddu faint o'r gamlas y gellir ei mordwyo i greu atyniad treftadaeth sy'n gweithio a darparu llety a chyfleusterau ychwanegol i ymwelwyr yng Nghoedwig Cwmcarn. Bydd hyn yn cysylltu â maes parcio newydd a gwell llwybrau cerdded a beicio o'r gamlas i'r dirwedd ehangach.

Bydd y prosiect yn creu ffocws i ymwelwyr sydd â diddordeb mewn chwaraeon antur a hamdden awyr agored, gan greu cyswllt rhwng amrywiaeth o gyfleusterau ac annog ymwelwyr i aros dros nos yn yr ardal. Bydd yn helpu i fanteisio ar botensial economaidd y rhan ddeheuol y gamlas a'r ucheldir o'i chwmpas, sy'n cael eu tanddefnyddio ar hyn o bryd.

Prosiect arall a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2018 yw uwchraddio Neuadd Llechwen, gwesty 3 seren ag 20 o ystafelloedd gwely ar 6 erw o dir, a oedd yn dŷ hir yn ôl yn yr 17eg ganrif.

Bydd y prosiect yn cynyddu nifer yr ystafelloedd gwely i 46, yn ychwanegu cyfleusterau campfa a sba ac yn uwchraddio'r cynnyrch i gyfleuster 4 seren. Un o flaenoriaethau buddsoddi mwyaf y sector twristiaeth yw darparu profiadau gwesty heb eu hail, gyda phwyslais ar greu cynnyrch 4 seren.

Mae'r prosiect hwn yn cyflawni'r amcanion hynny yn llawn. Y buddsoddiad a gynigir yw £409,000, o dan y Gronfa Microfusnesau a Busnesau Bach, a gefnogir trwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

O ran cynnwys, mae'r prosiect yn cynrychioli'r cam rhesymegol nesaf ar gyfer y busnes ac, wrth gyflawni'r prosiect, bydd y busnes yn gallu denu mwy o gwsmeriaid corfforaethol a gwesteion hamdden sy'n gwario mwy o arian. Mae'r lleoliad yn y Cymoedd, ychydig funudau yn unig o Ffordd Cymru (llwybr Ffordd Cambria) yn ychwanegu cyd-destun strategol pellach at y prosiect hwn.

Mae'r perchnogion presennol wedi bod yno ers 10 mlynedd, yn adnabod y cynnyrch yn dda ac wedi datblygu'r safle hyd yma. Mae'r prosiect hwn yn sicr o dyfu'r perfformiad hwnnw ymhellach a chryfhau'r cynnig twristiaeth yn y rhanbarth.

Mae'r cynllun strategol ar gyfer y Cymoedd yn nodi'r angen i ddatblygu naratif cadarnhaol newydd ar gyfer twristiaeth yn y Cymoedd a nodi prosiectau i ateb y galw nawr ac yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar y dirwedd, y dreftadaeth a'r bobl. Byddwn yn adeiladu ar fentrau llwyddiannus, megis Bike Park Wales sydd wedi denu llawer o ymwelwyr i Ferthyr Tudful. Wrth i'r rhanbarth ddatblygu ei atebion ei hun i faterion adfywio, megis Bike Park Wales, mae cyfle i newid ansawdd gwestai yn yr ardal a helpu i annog y rhai sy'n bwriadu ymweld â'r ardal am y dydd i aros dros nos.

Ymgysylltu a Chyfathrebu

Ein strategaeth yw annog, ysbrydoli a grymuso pobl y Cymoedd a thu hwnt i newid eu barn a chodi dyheadau cymunedau lleol a thu hwnt. Mae llais cymunedau'r Cymoedd yn hollbwysig i lywio dyfodol Ein Cymoedd. Rydym yn trafod, yn gwrandao ac yn ymateb i'n cymunedau o hyd i'w galluogi i wneud eu newidiadau eu hunain.

Y nod yw rhoi sylw i'r bobl, y tirweddau hardd, yr hanes a'r diwylliant ac adeiladu ar y gwaith cymunedol ysbrydoledig ar draws y cymoedd. Mae'r tasglu yn gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddatblygu'r camau a amlinellir yn y cynllun.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Adroddiad Ymgysylltu, mae nifer fawr o bobl yn falch o'u Cymoedd yn barod. Erbyn hyn, rydym yn gweithio gyda chymunedau'r Cymoedd i feithrin hyn a gweithio gyda ni i ddatblygu *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol*.

Ers mis Tachwedd, rydym wedi cynnal amryw o ddigwyddiadau gyda chynulleidfa a wahoddwyd. Mae'r rhain wedi archwilio manteision penodol i'r Cymoedd, gan gynnwys:

- Seminarau hyb strategol (hyd at 400 o bobl).
- Cynnig ar gyfer Parc Tirweddau'r Cymoedd: pedwar gweithdy a thri digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd (hyd at 300 o bobl).
- Seminar cynyddu manteision yr A465 (hyd at 50 o bobl).
- Cryfhau Cymunedau – digwyddiad rôl hybiau cymunedol yn ardal Tasglu'r Cymoedd (hyd at 100 o bobl).
- Tri chyfarfod o rwydwaith cyfathrebu ac ymgysylltu Tasglu'r Cymoedd (mwy na 250 o aelodau o sefydliadau ar draws y Cymoedd).

Yn ogystal, rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid i gyflwyno ffocws ar y Cymoedd mewn digwyddiadau a gynlluniwyd. Mae hyn wedi ein galluogi i ehangu ein cynulleidfa ac ymgysylltu â grwpiau a fyddai wedi bod yn anodd eu cyrraedd fel arall.

I ymgysylltu â'n cymunedau, rydym wedi:

- Datblygu cyfryngau cymdeithasol newydd a gwefan pwrpasol.
- Datblygu brand 'Y Cymoedd – Calon ac Enaid Cymru' ymhellach i gynrychioli gwaith y tasglu.
- Dathlu straeon llwyddiant y Cymoedd yn wythnosol ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Gweithio a chydgylltu ein negeseuon gyda gweithwyr ymgysylltu a chyfathrebu proffesiynol eraill.
- Ymgysylltu â phob ysgol gynradd yn y Cymoedd i ddod yn rhan o'n prosiect 'Sing Loud, Sing Proud', gan gymryd rhan mewn gweithdai cerddoriaeth i ddatblygu a recordio cân wreiddiol ar gyfer y cymoedd. Mae'r gân wedi cael ei rhyddhau ar Spotify a'i hyrwyddo gyda'r disgyblion.

Y cam nesaf yw adeiladu ar y berthynas sydd gennym â chymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid y cymoedd fel y gallwn ni barhau ar y siwrnai hon gyda'n gilydd ac annog eraill i ymuno â ni.

I gymryd rhan yn y siwrnai hon, dilynwch @trafodycymoedd ar Facebook, Instagram a Twitter.